


Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Gwyn H. Davies (Hiraethog) sy'n parhau i gael gofal yn yr ysbyty a hefyd Elwyn Roberts (Llansannan) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos ond yn gobeithio cael dod adre ddiweddd yr wythnos hon. Mae'n dda cael adrodd fod Edith Maloney (Henllan) wedi dod adref o'r ysbyty, fel ag y mae Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sydd wedi mynd yn ôl i Gartref Yr Hen Ddeondy, Llanelwy. Anfonwn ein cofion hefyd at Haf Williams (Tanyfron) sydd wedi cael anffawd yn ddiweddar ac wedi torri ei throed. Dymunwn wellhad buan iawn iddi ac i bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Detholiadau

Os hoffech gael copi o
Raglen Cymanfaoedd Canu 2015-2016
(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),
rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul
ERBYN DYDD SUL, MEDI 20^{fed}
os gwelwch yn dda. Pris: £1.40

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r wythnos ganlynol, os gwelwch yn dda?)



I ddo

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Medi 21ain am 7.30. "Yn nwylo Duw yn Uganda" – Paul Robinson a Gavin Craigen yn rhannu eu profiadau o weinidogaethu yn Uganda. £3 yn cynnwys bwffe.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 25ain-26ain yn y Bala ar gyfer pobl o bob oed, yn deuluoedd ac unigolion, ac i ffrindiau hen a newydd. Y siaradwr fydd y Parch. Alun Tudur, Caerdydd. Os nad ydych wedi rhoi eich enw, cysylltwch â Choleg y Bala yn y dyddiau nesaf, os gwelwch yn dda (01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk).
- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH HENLLAN**, dydd Llun, Hydref 12fed. Bydd plant Ysgol Henllan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn am 2.00 a Mrs Mair Beech Williams yn rhoi sgwrs i'r plant, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 7.00, ceir pregeth gan y Parch. Dewi Tudur. Croeso cynnes i bawb.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Saron nos Fawrth, Hydref 20fed am 7.30. Mwy o fanylion i ddilyn.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Medi 2015

Darlleniad y Dydd

Eseia 51:1-6

(BCND tud.667 / BCN: tud.609)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am y croeso arbennig gawsom ni dydd Sul diwethaf, ac ers hynny hefyd. Mae hi'n bleser bod yma i weithio yn y Fro hefo cymdeithas o bobl sy'n llawn cariad a charedigrwydd, ac sy'n dystiolaeth o waith yr Ysbryd Glân. Mae'r wlad yma, yn ogystal â gweddill Ewrop wedi gweld a chlywed galwad i estyn croeso i gannoedd o filoedd o bobl newydd dros yr wythnosau diwethaf – ffoaduriaid.

Fel Cristnogion rydan ni'n ymwybodol ein bod ni wedi bod ar goll cyn dod at Dduw am faddeuant. Mae'r croeso mae Duw yn estyn i'w faddeuant ac i'w deyrnas yn rhad ac am ddim. 'Does dim unrhyw fath o ddisgwyliad inni haeddu neu weithio tuag at dderbyn ei gariad – fel mae Paul yn dweud yn Rhufeiniaid 8:38, does dim byd all ein gwahanu ni o'i gariad Ef. O nabod a deall (cymaint ag y medrwn ni) y cariad yma, mae'r Beibl yn ein hannog i garu ein cymydog fel rydan ni'n caru ein hunain, gan estyn cariad i'r rhai sydd ei angen. Yn Mathew, mae Iesu yn esbonio yn blwmp ac yn blaen bod o'n disgwyl i ni ymateb i'w gariad o tuag atom ni mewn ffordd ymarferol. Mae o'n disgwyl, wrth i ni dyfu yn agosach ato fo, y byddwn yn dod yn fwy ymwybodol o'r anghyfiawnder sydd yn y byd ac o'r gwahaniaeth allwn ni ei wneud.

Yn Mathew 25, mae Iesu yn adnabod y bobl wnaeth fwydo'r newynog, gwahodd y digartref i'w tai, ac ymweld â charcharorion, fel pobl oedd yn helpu i adeiladu Teyrnas Duw ar y ddaear, ac yn ei helpu Ef ei hun.

Wrth i ni weld yr hyn sy'n digwydd yn Calais, yn Nhwrcei ac arfordir ac ynysoedd Groeg, gwelwn angen mawr iawn. Ac mae'n rhaid i ni ymateb i'r angen yma yn enw Iesu Grist. Mae angen i ni weithredu yn ogystal â gweddio'n daer. Y newyddion da i ni ydi fod cymaint yn mynd ymlaen er mwyn helpu'r bobl sy'n dioddef oherwydd y gwahanol drychinebau sy'n digwydd. Mae llawer o elusennau fel Tearfund, MOAS (Migrant Offshore Aid Station), MSF (meddygon heb ffiniau) a Chymorth Cristnogol yn casglu arian er yr achos, ac mae Coleg y Bala yn casglu nwyddau, e.e. dillad, pebyll, sachau cysgu a bwyd, i fynd i'r rhai sydd yn Calais. **Os dymunwch gyfrannu nwyddau, gallwn drefnu i fynd â nhw draw yno. Gofynnwch yn eich eglwys leol am daflen i gael mwy o wybodaeth.**

Yn bennaf oll, mae angen i ni gofio gweddio dros y bobl a'r teuluoedd bregus hyn, oherwydd mae Duw yn gweithredu, ac yn teyrnasu dros bob dim sy'n digwydd, felly mae angen rhoi'r sefyllfa yn Ei ddwylo.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Sarah

Darlleniad Wythnos Nesaf

Hebraid 2:5-9 (BCND tud.240 / BCN: tud.220)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 13^{eg} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. John Robinson yn pregethu.
- Mawrth – 15^{fed} • **Cyfarfod Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** am 7.30 yng Nghapel Henllan. Y siaradwraig fydd Sarah Morris. Croeso cynnes i bawb.
- Iau – 17^{eg} • **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel y Waen, Nantglyn. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.
- Sadwrn – 19^{eg} • **Cynhadledd CAMU** yng Ngholeg y Bala o 10:00 – 3:30. Prif siaradwr: Marc Owen (Rhisga). Cewch fwy o fanylion o dan 'Digwyddiadau' ar wefan ebcpcw.cymru.
- Sul nesaf – 20^{fed} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00, a bydd Mrs Nia Royles yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 13^{eg} Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11:10.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11:10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 13^{eg} Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2:00.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID AMSER). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 13^{eg} Cynhelir oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00 gyda Dr Owain Roberts yn arwain yr oedfa. Bydd paned i ddilyn a bydd y casgliad yn mynd tuag at Tŷ Croeso, Ysbyty Glan Clwyd.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Gwener – 18^{fed} Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Medi 13eg** os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.